## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Sylwadau ar y Mesur Addysg

Ar 19 Ionawr 2005 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Addysg. Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod hwn i'w weld ar dudalen y Pwyllgor ar wefan y Cynulliad.

Eglurodd y Gwir Anrhydeddus Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddarpariaethau allweddol y Mesur, a gafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhy'r Arglwyddi ar 30 Tachwedd 2004, a'i ail ddarlleniad ar 13 Rhagfyr.

Cafodd yr Aelodau bapur ELL(2)-01-05(p.8) a oedd yn amlinellu prif ddarpariaethau'r Mesur. Roedd y Papur yn dadansoddi'r Mesur bob yn gymal (Atodiad A), a hefyd yn cynnwys crynodeb o'r cymalau a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru (Atodiad B), trosolwg o'r fframwaith arolygu ysgolion (Atodiad C) a chrynodeb o ddarpariaethau'r Mesur nad ydynt yn ymwneud ag arolygu (Atodiad D). Cafodd yr Aelodau hefyd bapur briffio a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Dywedodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol mai nod y Mesur oedd codi safonau yn yr ysgolion. Caiff y Mesur ei rannu'n bump ac mae'n cynnwys 124 o gymalau ac 19 o atodlenni. Mae rhyw 40 o gymalau'n berthnasol i Gymru yn unig. Dywedodd fod y mwyafrif o'r darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru wedi'u llunio i sicrhau bod iddynt bwerau galluogi.

Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau'r materion a ganlyn:

- **Triwantiaeth / Dadrithiad**: Cafwyd trafodaeth ar ystadegau triwiantiaeth. Mae nifer yr achosion o absenoldeb 'heb ganiatâd' wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf ond mae lefel absenoldeb yn gyffredinol wedi lleihau. Cyfeiriodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y Cynulliad, at fentrau amrywiol gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thriwantiaeth, gan gynnwys cofrestru electronig a chydweithio â'r heddlu. Mae ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn ceisio dwyn perswâd ar rieni i beidio â mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor. Mae'r Mesur yn creu mwy o gyfleoedd i awdurdodau addysg lleol erlyn rhieni sy'n anwybyddu'r cyngor hwn. Teimlai rhai Aelodau fod hyn yn rhan o broblem ehangach; bod disgyblion yn ymddieithrio o'r ysgol yn aml oherwydd natur y cwricwlwm a'r teimlad nad oeddynt yn rhan o'r hyn sy'n mynd ymlaen. Mae angen croesawu cynlluniau fel llwybrau dysgu 14-19 a Bagloriaeth Cymru, sy'n cyfuno llwybrau dysgu academaidd a galwedigaethol ac sy'n creu cyrsiau sy'n fwy derbyniol yn gyffredinol ac sy'n hyrwyddo addysg gynhwysol;
- **Cyllido ysgolion:** Croesawodd yr Aelodau y penderfyniad i greu cylch cyllido tair blynedd gan ofyn a fyddai cyllid ysgolion yn cael ei glustnodi o fewn setliad llywodraeth leol yng Nghymru a hefyd a fyddai'r flwyddyn gyllido yn

cyd-fynd â'r flwyddyn academaidd yn hytrach na'r flwyddyn ariannol. Atebodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol bod symudiad yn Lloegr i roi cyllid a gaiff ei ddarparu gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn uniongyrchol i'r ysgolion. Roedd y Mesur yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth y Cynulliad wneud ei threfniadau ei hun. Dywedodd Gweinidog y Cynulliad mai tryloywder oedd yn allweddol o ran cyllido ysgolion Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad asesiadau unigol ar gyfer pob awdurdod lleol cyn y Nadolig i'w helpu i bennu eu cyllidebau ym mis Mawrth, ar ôl ystyried cyfraniad y fforymau cyllidebau ysgolion. Ychwanegodd ei bod yn bwysicach rhoi sicrwydd i ysgolion o'u cyllid tair blynedd ond bod hyn yn rhan o agenda ehangach o ddarparu cyllid tair blynedd i awdurdodau lleol. Yng Nghymru, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddarparu cyllid i ysgolion drwy'r awdurdodau lleol, er mwyn medru rhoi ystyriaeth i ffactorau lleol wrth bennu blaenoriaethau eu cyllidebau;
- **Bwlio:** Roedd yr Aelodau yn awyddus i'r ysgolion weithio'n agosach â'r sector gwirfoddol i helpu i fynd i'r afael â bwlio. Dywedodd Gweinidog y Cynulliad iddi ysgrifennu at bob ysgol yng Nghymru gan eu hatgoffa bod cyfrifoldeb statudol arnynt i fod â pholisi gwrth-fwlio ac i anfon copi at Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y polisïau hyn yn cael eu gwerthuso wrth iddynt gyrraedd, er mwyn helpu i rannu arfer da. Amlinellwyd polisi Llywodraeth y Cynulliad ar fwlio mewn dogfen sy'n dwyn y teitl 'Parchu Eraill', a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl. Dywedodd y Gweinidog y Cynulliad y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn maes o law;
- **Cynghorau Ysgolion:** Roedd yr Aelodau am wybod a gaiff deddfwriaeth ei defnyddio i ddatblygu cynghorau ysgolion drwy eu cynnwys mewn trefniadau arolygu ysgolion. Atebodd Gweinidog y Cynulliad fod gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau eisoes i sefydlu cynghorau ysgol statudol. Ar ôl eu sefydlu ym mhob ysgol yng Nghymru, byddai'n ystyried sut y gellid eu cynnwys yn y trefniadau arolygu. Ychwanegodd Gweinidog y Cynulliad mai dim ond yn ddiweddar y cafodd fframwaith arolygu cyffredin newydd ei gyflwyno yng Nghymru, a dyna pam nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar y fframwaith a oedd yn cael ei ystyried yn Lloegr;
- **Materion Eraill:** Yn ystod trafodaeth amrywiol iawn, cododd yr Aelodau nifer o faterion eraill gan gynnwys arolygu Gyrfa Cymru, cyfarfodydd blynyddol llywodraethwyr ysgol ac addysg gysylltiedig â gwaith. Mae'r trafodaethau hyn i gyd wedi'u cynnwys yn y cofnod gair-am-air.

Dywedodd Gweinidog y Cynulliad y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor am hynt y Mesur.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Weinidog a dywedodd y byddai cyfle i'r Pwyllgor graffu ar is-ddeddfwriaeth a fyddai'n codi o'r Mesur.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod darpariaethau'r Mesur ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

**Peter Black AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**